CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH
MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION
AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

# Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

## Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

# CYNLLUNIAU CYDRADDOLDEB STRATEGOL

**Hydref 2022**

# Tudalen Gynnwys


| Adran | Cynnwys | Rhif Tudalen |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 3 |
| 2. | Gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus | 3 |
| 3. | Integreiddio Cydraddoldeb yn Rhan o Bolisïau Statudol ac Anstatudol Eraill | 4 |
| 4. | Nodau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol | 4 |
| 5. | Swyddogaethau a Chyfrifoldebau | 5 |
| 6. | Ymgysylltu | 6 |
| 7. | Dadansoddi Data a'u Gwerthuso | 7 |
| 8. | Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol | 7 |
| 9. | Amcan Cyflog Rhwng y Rhywiau | 8 |
| 10. | Dysgu Proffesiynol i Staff | 8 |
| 11. | Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb | 8 |
| 12. | Cynlluniau Hygyrchedd | 9 |
| 13. | Gwerthuso Effeithiolrwydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol | 9 |
| 14. | Cyhoeddi’r Canlyniadau a'u Monitro | 9 |
| 15. | Casgliad | 10 |

| | | |
|---|---|---|
| 16. | Canllawiau Ychwanegol | 10 |
| Atodiad 1 | Polisi Enghreifftiol a Thempled Cynllun Cydraddoldeb Strategol i Ysgolion | 11 |




## Adran 1: Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i'r Cyngor, a'i holl ysgolion, gyflawni eu hymrwymiad i gydraddoldeb, a bod yn atebol am y ffordd y mae'n cyflawni'r rhwymedigaethau cyfreithiol sydd wedi'u nodi yn **Neddf Cydraddoldeb 2010** ("y Ddeddf"). Mae'r Ddeddf yn nodi nodweddion gwarchodedig ac yn diogelu'r rheiny sydd â'r nodweddion hynny rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i wahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol. Yr enw ar y rhain yw'r **'nodweddion gwarchodedig'.**

## Adran 2: Gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Daeth y Ddeddf â chyfreithiau gwrth-wahaniaethu ynghyd, gan ddisodli'r rhai blaenorol, er mwyn creu un Ddeddf. Yna, cyflwynodd ddyletswydd gyffredinol newydd ar y Cyngor i roi sylw dyledus i'r canlynol wrth ddod i benderfyniadau a darparu gwasanaethau:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd o dan y Ddeddf.
- Hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl sydd ddim yn eu rhannu.
- Hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a phobl sydd ddim yn eu rhannu.

Er mwyn cyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol sydd wedi'u hamlinellu yn y Ddeddf, mae gydag ysgolion dair set o ddyletswyddau penodol, sef:

- Casglu, dadansoddi a chyhoeddi gwybodaeth am eu cynnydd mewn perthynas â chyflawni tri nod y Ddeddf.
- Penderfynu ar amcanion penodol a mesuradwy dros y blynyddoedd i ddod er mwyn cyflawni'r nodau yma, a'u cyhoeddi.

ac wrth ymgymryd â'r ddwy set gyntaf o ddyletswyddau penodol:

- ymgysylltu â phobl sydd â diddordeb diffuant – gan gynnwys yr holl staff, yr holl rieni/gwarcheidwaid, dysgwyr, grwpiau lleol, sefydliadau ac unigolion fel y bo'n briodol

Daeth **Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus** ("y PSED") i rym ym mis Ebrill 2011 (Adran 149 o'r Ddeddf) ac mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion gymryd camau i



wella deilliannau ar gyfer dysgwyr â nodweddion gwarchodedig gwahanol. O dan y Ddeddf, dyma ofyniad cyfreithiol rhaid i ysgolion yng Nghymru ei fodloni.

Yn y pen draw, nod y Ddeddf yw sicrhau bod cyrff cyhoeddus ac ysgolion yn ystyried sut y gallen nhw gyfrannu'n gadarnhaol i gymdeithas decach, a hynny drwy hybu cydraddoldeb a meithrin perthynas dda yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Yn y bôn, ei nod yw dileu neu leihau unrhyw anfantais sy'n wynebu unigolion oherwydd eu nodweddion gwarchodedig, a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i oresgyn unrhyw rwystrau, yn enwedig os yw cyfranogiad mewn agweddau ar fywyd cyhoeddus neu fywyd yr ysgol yn is na'r disgwyl. Mae hefyd yn ceisio mynd ati i ddatblygu perthynas gadarnhaol, a hynny drwy fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu, a thrwy hybu dealltwriaeth rhwng unigolion sy'n rhannu'r un nodweddion gwarchodedig neu sydd ddim yn eu rhannu.

Efallai bod bodloni'r ddyletswydd yn golygu trin rhai pobl yn fwy ffafriol nag eraill. Mae hyn yn iawn os nag yw'n mynd yn groes i ddarpariaethau eraill yn y Ddeddf.

## Adran 3: Integreiddio Cydraddoldeb yn Rhan o Bolsiau Statudol ac Anstatudol Eraill

Dylai'r ymrwymiad i gydraddoldeb fod yn sail i holl bolisïau, prosesau a gweithdrefnau'r ysgol. Mae yna nifer o bolisïau statudol ac anstatudol allweddol sy'n adlewyrchu'n gryf ofynion y Ddeddf, a dylai'r rhain gydweddu'n sylweddol â'r polisi a'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol ("y Cynllun"). Mae'r rhain yn cynnwys: Polisi disgyblaeth dysgwyr/gwrth-fwlio, polisi Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)/Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), polisi diogelu, polisi cwricwlwm, a'r polisi cwynion i enwi dim ond rhai.

Rhaid i bob corff llywodraethu ac aelod o uwch garfan reoli'r ysgol roi sylw dyledus i ganllawiau statudol ar hawliau, parch a chydraddoldeb a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyrff llywodraethu mewn ysgolion a gynhelir. Mae gofyniad hefyd i bob ysgol gofnodi, monitro ac adrodd ar bob digwyddiad o fwlio a phob digwyddiad hiliol i'r awdurdod lleol

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i:
Hawliau, parch, cydraddoldeb: canllawiau ar gyfer ysgolion (Llywodraeth Cyrmru)
Polisi gwrth-fwlio'r Cyngor

## Adran 4: Nodau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae'n ofynnol i bob ysgol gael y Cynllun manwl yma i sicrhau bod gofynion cyfreithiol y Ddeddf a'r PSED yng Nghymru yn cael eu bodloni.

Pwrpas y Cynllun yw cyflawni'r dyletswyddau i ddarparu cydraddoldeb i unigolion â nodweddion gwarchodedig a sicrhau bod tegwch a chydraddoldeb wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud ar bob lefel yn ein hysgolion a'n cymunedau.

## Adran 5: Swyddogaethau a Chyfrifoldebau Cyrff Llywodraethu

### Y CORFF LLYWODRAETHU

O dan y PSED mae dyletswyddau penodol hefyd ar gyrff llywodraethu ysgolion fel bod modd cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn well.

**Rhaid** i gyrff llywodraethu ysgolion wneud y canlynol:

- Cyhoeddi'r Cynllun pedair blynedd a'r amcanion cydraddoldeb perthnasol, a'u hadolygu cyn pen pedair blynedd.
- Cyhoeddi datganiad sy'n nodi'r camau y mae wedi'u cymryd, neu'n bwriadu eu cymryd, er mwyn cyflawni pob amcan cydraddoldeb a chydymffurfio â'r PSED a'r Ddeddf.
- Gwneud trefniadau priodol i fonitro eu cynnydd a'u heffeithiolrwydd. ● (Wrth gynllunio amcanion cydraddoldeb) rhoi sylw dyledus i wybodaeth berthnasol a cheisio cyfranogiad yr unigolion sydd, yn eu barn nhw, yn cynrychioli lles yr unigolion sy'n rhannu un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig.

Rhaid i bob ysgol fod â Chynllun cyfredol yn ei le. Mae hyn yn ofyniad

statudol. **UWCH GARFANNAU RHEOLI**

Rhaid i aelodau o uwch garfan reoli'r ysgol sicrhau eu bod yn hybu cydraddoldeb yn weithredol ac yn dileu gwahaniaethu trwy:

- Gweithredu Cynllun yr ysgol, gyda chefnogaeth y corff llywodraethu i wneud hynny.
- Sicrhau bod yr holl staff yn gwbl effro i'w cyfrifoldebau o dan y Ddeddf, y Cynllun, ac amcanion cydraddoldeb yr ysgol.



- Sicrhau bod pob panel penodi yn rhoi sylw dyledus i'r Cynllun, fel na chaiff unrhyw un eu gwahaniaethau yn eu herbyn o ran cyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Hybu'r egwyddor o gyfleoedd cyfartal wrth ddatblygu'r cwricwlwm, hybu dangos ac arfer parch at bobl eraill, a darparu cyfleoedd cyfartal mewn perthynas â chymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.
- Mynd i'r afael â phob achos o driniaeth annheg ac unrhyw achosion o fwlio neu wahaniaethu, gan gynnwys digwyddiadau hiliol, yn unol â pholisïau'r awdurdod lleol a'r ysgol.
- Sicrhau bod yr holl staff yn effro i'r Cynllun.

**STAFF ADDYSGU A STAFF SYDD DDIM YN ADDYSGU**

Rhaid i bob aelod o staff yr ysgol gyfrannu at sicrhau bod eu hysgol yn gymuned deg a chyfiawn sy'n gweithredu'n un wrth:

- Sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei drin/ei thrin yn deg, yn gyfartal a chyda pharch, gan fod yn effro i Gynllun yr ysgol bob amser.
- Ymdrechu i ddarparu deunydd sy'n rhoi delweddau cadarnhaol yn seiliedig ar y nodweddion gwarchodedig ac sy'n herio delweddau ystrydebol.
- Herio unrhyw achosion o ragfarn, hiliaeth neu homoffobia, a chofnodi unrhyw ddigwyddiadau difrifol fel sydd wedi'u nodi ym mholisïau'r awdurdod lleol a'r ysgol (e.e. adrodd ar ddigwyddiadau hiliol).
- Cefnogi gwaith staff cymorth a'u hannog i ymyrryd mewn ffordd gadarnhaol yn erbyn unrhyw achosion o wahaniaethu.

## Adran 6: Ymgysylltu

Dylai barn dysgwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill (e.e. rhieni, gwarcheidwaid, staff, corff llywodraethu'r ysgol a'r gymuned ehangach) helpu i lunio'r amcanion cydraddoldeb sydd wedi'u nodi yn y Cynllun.

Mae ymgysylltu llwyddiannus yn gofyn am gasglu gwybodaeth ynghyd a rhyngweithio ag ystod o wahanol grwpiau, yn ogystal â pharhau i fod yn sensitif i anghenion unigolion â nodweddion gwarchodedig gwahanol. Mae sicrhau lleisiau dysgwyr, eu teuluoedd a'u

gwarcheidwaid mewn ffordd ystyrlon yn hanfodol i ddeall anghenion ein dysgwyr a’n teuluoedd, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed.

Dylid ymgymryd ag ystod eang o waith ymgysylltu gwahanol er mwyn llywio cynlluniau strategol. Dyma rai enghreifftiau:

- Dadansoddi ymatebion yr arolwg neu adborth gan grwpiau ffocws ar faterion cydraddoldeb gan ystod o randdeiliaid gan gynnwys dysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid, staff, y corff llywodraethu a’r gymuned ehangach. Dylid



rhoi peth ystyriaeth hefyd i ddadansoddi gwybodaeth yn ôl nodweddion gwarchodedig i lywio cynllunio strategol.
- Gweithgareddau llais y dysgwr ac adborth gan gyngor yr ysgol.
- Dadansoddiad o gwynion am yr ysgol.
- Adborth yn sgil achlysuron a gweithdai ymgynghori â rhieni/gwarcheidwaid.
- Adborth o brosesau adolygu blynyddol.
- Deilliannau achlysuron a gweithgareddau sy'n dod â'r gymuned ynghyd.

Wrth ymgynghori, rhaid rhoi ystyriaeth sylweddol i'r dulliau mwyaf effeithiol a dibynadwy o gasglu gwybodaeth. Efallai y bydd angen cyfleusterau dehongli ar gyfer y rheiny y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddyn nhw neu'r rheiny sydd newydd gyrraedd y wlad yma. Dylid hefyd ystyried deunyddiau wedi'u haddasu, a'u defnyddio i sicrhau hygyrchedd i'r rheiny ag anableddau neu ADY.

Dylid hefyd ystyried sut y bydd yr ysgol yn rhannu'r wybodaeth yma â rhanddeiliaid allweddol (e.e. adroddiadau blynyddol, gwefan yr ysgol, cylchlythyrau, ac ati).

## Adran 7: Dadansoddi Data a’u Gwerthuso

Dylai prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwella'r ysgol hefyd lywio'r Cynllun. Dylid hefyd ystyried cymharu data’r ysgol â data lleol neu genedlaethol (os yw ar gael), os yw’n briodol. Dylai hyn gynnwys:

- Ddata cyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr yn ymwneud â gwahanol grwpiau agored i niwed a nodweddion gwarchodedig.
- Dadansoddi mynediad at y cwricwlwm a dewisiadau perthnasol yn ôl grwpiau agored i niwed a nodweddion gwarchodedig.
- Dadansoddi data presenoldeb, gwaharddiadau a bwlio/aflonyddu yn ôl grwpiau agored i niwed a nodweddion gwarchodedig lle bo'n briodol.
- Niferoedd ymgysylltu â gweithgareddau cyfoethogi yn ôl grwpiau agored i niwed neu nodweddion gwarchodedig.
- Data recriwtio, datblygu a chadw gweithwyr.
- Gwerthuso camau gweithredu a deilliannau hanesyddol mewn perthynas â chydraddoldeb.

Yn ogystal â hyn, dylai hunanarfarnu cadarn gyfrannu at ddatblygu'r Cynllun yma, a dylai hwnnw gydweddu â Chynllun Gwella'r Ysgol hefyd.

Dylid hefyd ystyried sut y bydd yr ysgol yn rhannu’r wybodaeth yma â rhanddeiliaid allweddol (e.e. adroddiadau blynyddol, gwefan yr ysgol, cylchlythyrau, ac ati).

## Adran 8: Datblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol



Mae'r canllawiau yma wedi'u llunio i helpu ysgolion i ddatblygu'r Cynllun a'i amcanion cydraddoldeb. Ceir polisi enghreifftiol ar gyfer y Cynllun yn Atodiad A. Mae’r ddau wedi’u datblygu i adlewyrchu gofynion y Ddeddf a’r PSED cysylltiedig, a chanllawiau’r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy’n amlygu elfennau allweddol yr hyn y dylid ei gynnwys yn rhan o'r Cynllun.

Canllaw yn unig yw'r fformat yma. Gall ysgolion ddefnyddio fformat arall os ydyn nhw'n dymuno. Waeth pa fformat a gaiff ei defnyddio, rhaid i bob ysgol ddatblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a Chynllun pedair blynedd sy'n parhau i fod yn gyfredol ac a fydd yn cael ei ddiweddaru mewn modd amserol i sicrhau nad oes unrhyw fwlch o ran cynllunio na chyflawni gwelliannau. Dylai'r amcanion cydraddoldeb a'r Cynllun geisio cyflawni deilliannau cydraddoldeb mesuradwy sy'n gwella bywydau unigolion a chymunedau, a dylen nhw fanylu ar y camau y bydd yr ysgol yn eu cymryd i'w cyflawni.

Rhaid i'r polisi a'r Cynllun hefyd ddangos bod yr ysgol yn casglu gwybodaeth a thystiolaeth berthnasol ynghyd i seilio ei phenderfyniadau arnyn nhw, yn ogystal â manylu ar y prosesau a fydd yn cael eu dilyn i fonitro cynnydd ac asesu effaith y cynigion. Mae angen i'r Cynllun fod yn berthnasol i gyd-destun yr ysgol ac adlewyrchu natur unrhyw faterion cydraddoldeb sy'n codi yn yr ysgol. Dylai fod yn amlwg fod y Cynllun a chynlluniau a pholisïau strategol allweddol eraill yn cydweddu, a dylen nhw amlygu agendâu lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

## Adran 9: Amcan Cyflog Rhwng Y Rhywaiu

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i amcan cyflog y rhywiau gael ei ddatblygu lle caiff gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau ei nodi. Bydd hyn yn gofyn am ddadansoddiad ystadegol o ddata cyflogau a chymariaethau rhwng staff gwrywaidd a benywaidd.

Fydd dim modd i rai ysgolion nodi gwahaniaeth cyflog gan y bydd y grŵp staff yn rhy fach i wneud dadansoddiad ystadegol priodol a sicrhau bod dim modd adnabod neu enwi staff. Os felly, mae angen nodi hyn a rhoi esboniad.

Os nad oes gyda chi amcan cyflog rhwng y rhywiau yna mae angen i chi nodi'r rhesymau pam.

## Adran 10: Dysgu Proffesiynol I Staff

Mae'n ofyniad statudol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddyletswydd gyffredinol ymhlith staff ac i nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi yn y maes yma yn ystod y broses rheoli cyflawniad. Dylid gwneud hyn bob blwyddyn a dylai deilliannau gyfrannu at gynlluniau dysgu proffesiynol yn yr ysgol.



## Adran 11: Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Dylid cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn fater o drefn er mwyn adolygu cynlluniau a pholisïau cyfredol ac arfaethedig. Mae hyn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw berson dan anfantais mewn perthynas â gweithgareddau'r ysgol oherwydd gwahaniaethu. Dylid cynnal asesiadau effaith yn rhan o broses barhaus i sicrhau bod cynlluniau a pholisïau'r ysgol yn cael eu datblygu mewn modd cynyddol gynhwysol a theg. Lle mae asesiadau effaith wedi'u cynnal, dylen nhw ddylanwadu ar newidiadau i bolisi ac adolygiad y Cynllun ei hun.

## Adran 12: Cynlluniau Hygyrchedd

Mae'n bwysig nodi bod y gofyniad i baratoi Cynllun Hygyrchedd ar wahân i'r Cynllun yma sydd dan sylw ac felly mae angen dau gynllun. Mae rhagor o wybodaeth am Gynlluniau Hygyrchedd ar gael yma:
Polisïau | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

## Adran 13: Gwerthuso Effeithiolrwydd y Cynllun CydraddoldebStrategol

Dylid gwerthuso'r Cynllun yn fater o drefn i sicrhau ei fod yn effeithiol o ran cyflawni gwelliannau, hybu cydraddoldeb a thegwch a mynd i'r afael ag unrhyw fath o wahaniaethu. Dylai rhanddeiliaid allweddol fod yn rhan o waith gwerthuso effaith y camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn erbyn pob amcan cydraddoldeb yn y Cynllun. Dydy hi ddim yn ofynnol i ysgol nodi camau gweithredu yn erbyn pob nodwedd warchodedig, ond dylid darparu'r rhesymeg a'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer dewis amcanion cydraddoldeb allweddol ac ar gyfer eithrio unrhyw nodweddion gwarchodedig.

Dylid rhannu adroddiad blynyddol sy'n gwerthuso effeithiolrwydd y Cynllun gyda'r corff llywodraethu a dylen nhw chwarae rhan weithredol wrth lunio unrhyw gynlluniau newydd. Dylai cadeirydd y corff llywodraethu ddarparu trosolwg o lwyddiant y Cynllun mewn perthynas â gwella cydraddoldeb yn yr Adroddiad Blynyddol i Rieni/Gwarcheidwaid.

## Adran 14: Cyhoeddi'r Canlyniadau a'u Monitro



Bob blwyddyn, dylai ysgolion ddarparu adroddiad i'r corff llywodraethu sy'n manylu ar y Cynllun ac yn ei werthuso. Dylai'r corff llywodraeth hefyd ddarparu gwybodaeth fanwl yn yr Adroddiad Blynyddol i Rieni/Gwarcheidwaid.

Dylid prosesu'r holl ddata a gaiff eu casglu at ddiben dadansoddi tueddiadau yn ôl nodwedd warchodedig ym meysydd cyflawniad, ymgysylltiad a boddhad â'r cymorth a'r ddarpariaeth y mae'r ysgol yn eu cynnig, yn unol â gofynion a deddfwriaeth diogelu data.

Rhaid i'r Cynllun gael ei fonitro gan y corff llywodraethu a rhaid i bob cynllun newydd gael ei gyflwyno i'r awdurdod lleol ar gais.

## Adran 15: Casgliad

I grynhoi, mae'n ofyniad statudol i bob ysgol gael Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Rhaid i'r ysgol nodi'n glir sut mae'n llwyddo i gyflawni'i chyfrifoldebau cyfreithiol wrth ddatblygu'r Cynllun pedair blynedd. Dylai pob ysgol hefyd nodi'n fanwl ei hamcanion cydraddoldeb penodol ar gyfer cyfnod y Cynllun. Dylai'r Cynllun gynnwys manylion sut cafodd yr amcanion cydraddoldeb eu pennu, y dull a gafodd ei ddefnyddio i ymgysylltu a hunanarfarnu, ynghyd â chamau gweithredu manwl sy'n nodi sut bydd yr amcanion cydraddoldeb yn cael eu cyflawni. Rhaid i gyrff llywodraethu gydymffurfio â gofynion y Ddeddf a sicrhau bod y Cynllun yn cael ei adolygu'n fanwl. Dylid diweddaru'r corff llywodraethu a rhieni/gwarcheidwaid yn flynyddol drwy ddarparu Adroddiad Blynyddol.

## Adran 16: Canllawiau Ychwanegol

Mae modd cael rhagor o fanylion gan y Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant (Ceri.L.Jones@rctcbc.gov.uk) neu gan y Garfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth: cydraddoldeb@rctcbc.gov.uk.

**Atodiad 1**

CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH
MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION
AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF

## Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant

### Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon
### CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL
### 2022-2025

**Dyddiad cymeradwyo gan y corff llywodraethu: 09.03.2023**
**Dyddiad yr adolygiad blynyddol: Tymor yr hydref 2023**
**Dyddiad yr adolygiad llawn: Tymor yr hydref 2025**
**CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL YSGOl GYNRADD GYMRAEG Abercynon 2022-2025**

# Tudalen Gynnwys


| Adran | | NODWCH rifau'r tudalennau |
|---|---|---|
| 1. | Rhagair | 13 |
| 2. | Cyflwyniad | 14 |
| 3. | Ein Cyd-destun | 15 |
| 4. | Integreiddio Cydraddoldeb yn Rhan o Bolisïau Statudol ac Anstatudol Eraill | 15 |
| 5. | Nodau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol | 15 |

| | | |
|---|---|---|
| 6. | Deddf Cydraddoldeb 2010 – Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus | 16 |
| 7. | Swyddogaethau a Chyfrifoldebau | 17 |
| 8.<br>9. | Ymgysylltu<br>Dadansoddi Data a'u Gwerthuso | 18<br>19 |
| 10.<br>11. | Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb<br>DysguPproffesiynol i Staff | 19<br>20 |
| 12. | Amcanion Cydraddoldeb | 20 |
| 13. | Amcan Cyflog Rhwng y Rhywiau | 21 |
| 14. | Cyhoeddi Canlyniadau a'u Monitro | 21 |
| 15. | Arweinyddiaeth Strategol | 21 |
| Atodiad 1 | Cynllun Cydraddoldeb Strategol | Atodiad 1 |




## Adran 1: Rhagair

Yn Ysgol Abercynon rydyn ni'n cydnabod yn llawn ein dyletswyddau a’n cyfrifoldebau i ddileu gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb i bob dysgwr, gweithiwr, aelod o gymuned yr ysgol a defnyddiwr gwasanaeth waeth beth fo’r nodweddion gwarchodedig.

Rydyn ni'n llwyr gefnogi gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 ("y Ddeddf") a’r angen am ddiogelu unigolion â nodweddion gwarchodedig rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth, fel sydd wedi'i nodi yn y Ddeddf.

Mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ("y Cynllun") wedi’i lywio gan farn ein dysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid, staff, y corff llywodraethu a’r gymuned ehangach i wneud yn siŵr ei fod yn mynd i’r afael â blaenoriaethau ar gyfer gwella mewn ffordd gadarn, a bod tegwch a chydraddoldeb yn sail i bopeth rydyn ni'n ei wneud yn ddarparwr addysg a chyflogwr. Mae’r Cynllun yma'n nodi ein hamcanion cydraddoldeb am gyfnod o bedair blynedd rhwng 2022 a 2026, a’r camau y byddwn ni'n eu cymryd i leihau anghydraddoldebau sy'n cael eu nodi, gwella deilliannau a meithrin perthynas dda yn yr ysgol a'r tu hwnt iddi. A ninnau'n ysgol gymunedol, mae sicrhau bod pawb sy’n gysylltiedig â’r ysgol yn cael eu trin â gofal, parch ac urddas wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud.

Bydd yr ysgol a’r corff llywodraethu yn casglu gwybodaeth ynghyd am ein cynnydd wrth gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun, a thri nod y Ddeddf, yn ei dadansoddi, ei rhannu a'i chyhoeddi, a hynny at ddibenion tryloywder ac atebolrwydd. Byddwn ni hefyd yn ceisio mynd ati i ymgysylltu â chymuned ein hysgol a phartneriaid ehangach i sicrhau bod ein Cynllun a’r camau rydyn ni'n eu cymryd yn gwneud gwahaniaeth i fywydau unigolion â nodweddion gwarchodedig yn ein hysgol ac i aelodau o gymuned ein hysgol.

**Lisa Young**
**CADEIRYDD Y CORFF LLYWODRAETHU**

**Emma Smith**
**PENNAETH Dros dro**



## Adran 2: Cyflwyniad

Yn Ysgol Abercynon, rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd amrywiaeth, ac yn ymdrechu i hybu diwylliant ac ethos cynhwysol lle mae pob dysgwr, rhiant/gwarcheidwaid, aelod o staff ac aelod o’r ysgol a’r gymuned ehangach yn cael eu croesawu a’u cefnogi i gyflawni eu potensial, waeth beth fo’u cefndir neu eu nodweddion gwarchodedig (e.e. oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, a chyfeiriadedd rhywiol).

Mae cenhadaeth ein hysgol yn cyd-fynd ag egwyddorion y Ddeddf. Rydym wedi seilio ein cenhadaeth ac egwyddorion cydraddoldeb trwy weithio ar y cyd gyda holl randdeiliaid yr ysgol.

Cenedl Heb Iaith, Cenedl Heb Galon. Yn yr ysgol rydym yn sicrhau defnydd o’r iaith Gymraeg ac ymestyn pob unigolyn i gyrraedd ei lawn botensial mewn awyrgylch hapus, diogel a deiniadol.

Nodau ein hysgol

**C**ymreictod

**C**wrteisi

Caredigrwydd
Ceisio'n ein gorau glas

Trwy ein cenhadaeth rydym yn sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei ddathlu yn ein hysgol gymunedol.

At hynny, mae gwerthoedd ein hysgol yn helpu i ddatblygu cydraddoldeb i bawb, a hynny am eu bod nhw'n canolbwyntio'n gryf ar gefnogi lles a chyflawniad pob dysgwr lle caiff holl aelodau cymuned yr ysgol eu trin yn deg a chyda pharch ac urddas.

Mae Ysgol Abercynon yn sicrhau bod gwahaniaeth yn cael ei werthfawrogi a bod yna gred gyffredinol sy'n treiddio i'n polisïau, yr hyn rydyn ni'n ei wneud, a'n hymddygiadau, bod amrywiaeth yn cyfoethogi ein bywydau a'n profiadau. A ninnau'n gymuned ysgol rydyn ni wedi ymrwymo i nodi unrhyw rwystrau i ddysgu ac ymgysylltu, a'u goresgyn, ac i sicrhau bod holl aelodau ein cymuned yn yr ysgol yn cyflawni eu potensial.

Mae ein polisi a'n Cynllun yn amlygu ein datganiad o fwriad. Fyddwn ni ddim yn goddef unrhyw fath o wahaniaethu anghyfreithlon ac annheg na bwlio nac aflonyddu. Rydyn ni wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb a sicrhau bod yr addasiadau angenrheidiol yn cael eu gwneud fel bod modd i bob dysgwr chwarae rhan weithredol ym mywyd ein hysgol.

Rydyn ni'n credu'n gryf y dylai pob dysgwr allu dysgu a datblygu'n llawn mewn amgylchedd gwirioneddol amrywiol a chynhwysol. Dylen nhw hefyd gael y gefnogaeth i



gyflawni eu potensial er mwyn cefnogi ein cenhadaeth ein hunain a chenhadaeth yr awdurdod lleol, sef 'sicrhau tegwch a rhagoriaeth mewn addysg a lles gwell i bawb.'

## Adran 3: Cyd-destun ein hysgol

Rydyn ni'n ysgol gynradd (3-11 oed) cyfrwng Cymraeg mewn ardal o AMDDIFADEDD CANOLIG. Mae yna 276 o ddysgwyr ar y gofrestr, gan gynnwys 72 Cam Cynnydd 1, 110 Cam Cynnydd 2 a 94 Cam Cynnydd 3. At ei gilydd, mae tua 69 o ddysgwyr yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n cyfateb i 25% o gymuned yr ysgol. Mae 71 o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), sef 25.6%. Mae 2 o ddisgyblion â datganiadau Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) sef 0.7%. Mae gyda'r ysgol boblogaeth amrywiol, ac mae 4 o ddisgyblion yn dod o gefndir ethnig lleiafrifol. Mae 2 o ieithoedd gwahanol yn cael eu siarad yng nghymuned yr ysgol ac mae 5% yn siarad Cymraeg yn iaith gyntaf.

A ninnau'n ysgol, rydyn ni wedi ymrwymo i weithio'n rhan o bartneriaeth â'n teuluoedd, asiantaethau allanol a chymunedau ehangach. Rydyn ni'n gweithio ar y cyd â'n holl bartneriaid i sicrhau bod ein dysgwyr yn gallu cael gafael ar y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

## Adran 4: Integreiddio Cydraddoldeb yn Rhan o Bolisiau Statudol ac Anstadudol

Mae ein hymrwymiad i gydraddoldeb yn sail i holl bolisïau, prosesau a gweithdrefnau'r ysgol. Mae yna nifer o bolisïau statudol ac anstatudol allweddol sy'n adlewyrchu'n gryf ofynion y Ddeddf ac sy'n cyd-fynd yn sylweddol â'r polisi a'r Cynllun yma. Mae'r rhain yn cynnwys: Polisi disgyblaeth dysgwyr/gwrth-fwlio, polisi AAA/ADY, polisi diogelu, polisi cwricwlwm, a'r polisi cwynion.

## Adran 5: Nodau'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Mae'n ofynnol i bob ysgol gael y Cynllun manwl yma i sicrhau bod gofynion cyfreithiol y Ddeddf a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ("y PSED") yng Nghymru yn cael eu bodloni.

Pwrpas y Cynllun yma yw cyflawni'r dyletswyddau i ddarparu cydraddoldeb i unigolion â nodweddion gwarchodedig a sicrhau bod tegwch a chydraddoldeb wrth wraidd popeth rydyn ni'n ei wneud ar bob lefel yn ein hysgolion a'n cymunedau.



## Adran 6: Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yng Nghymru

Mae'r Ddeddf yn amlinellu'r gofyniad i bob ysgol fodloni tri nod allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd o dan y Ddeddf.
- Hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl sydd ddim yn eu rhannu.
- Hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a phobl sydd ddim yn eu rhannu.

Er mwyn cyflawni'r tri nod allweddol yma, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith i ni lunio'r Cynllun yma, ynghyd ag amcanion cydraddoldeb, bob pedair blynedd. Er mwyn sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â gofynion y Ddeddf, bydd ein hysgol yn:

- Casglu, dadansoddi a chyhoeddi gwybodaeth am ein cynnydd wrth gyflawni tri

nod y Ddeddf.

- Hunanarfarnu'n effeithiol a phenderfynu ar amcanion cydraddoldeb penodol a mesuradwy. Byddwn ni'n cyhoeddi'r rhain ac yn mynd ati'n weithredol i'w cyflawni dros gyfnod o bedair blynedd er mwyn sicrhau deilliannau cadarnhaol.
- Ymgysylltu â'r holl randdeiliaid allweddol, gan gynnwys dysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid, staff a'r gymuned ehangach i lunio, llywio a gwerthuso effeithiolrwydd ein Cynllun.

Daeth y PSED i rym ym mis Ebrill 2011 (Adran 149 o'r Ddeddf) ac mae'n ei gwneud hi'n ofynnol i ysgolion gymryd camau i wella deilliannau ar gyfer disgyblion â nodweddion gwarchodedig gwahanol. O dan y Ddeddf, dyma ofyniad cyfreithiol rhaid i ysgolion yng Nghymru ei fodloni. Bydd cyflawni ein Cynllun yn effeithiol a chyson yn galluogi ein hysgol i gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach. Byddwn ni'n gwneud hyn drwy hybu tegwch, cydraddoldeb a pherthynas gadarnhaol rhwng holl aelodau cymuned yr ysgol waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. Yn ogystal â hynny, byddwn ni hefyd yn ceisio mynd ati i ddileu neu leihau unrhyw anfantais sy'n wynebu unigolion oherwydd eu nodweddion gwarchodedig, a sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i oresgyn unrhyw rwystrau, yn enwedig os yw cyfranogiad mewn agweddau ar fywyd yr ysgol yn is na'r disgwyl. Byddwn ni hefyd yn ceisio mynd ati i ddatblygu perthynas gadarnhaol drwy fynd i'r afael â rhagfarn a gwahaniaethu, a thrwy hybu dealltwriaeth rhwng unigolion sy'n rhannu'r un nodweddion gwarchodedig neu sydd ddim yn eu rhannu.



## Adran 7: Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

Bydd yr aelodau canlynol o staff yr ysgol yn gyfrifol am sicrhau bod y Cynllun yn cael ei weithredu'n llwyddiannus.

### Y CORFF LLYWODRAETHU

Mae'r corff llywodraethu wedi nodi ei ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein Cynllun Addysg Strategol. Bydd yn parhau i wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod yr ysgol yn gwbl gynhwysol o ran dysgwyr, ac yn ymateb i'w hanghenion yn seiliedig ar y nodweddion gwarchodedig amrywiol.

Mae'r corff llywodraethu yn:

- Ceisio sicrhau nad oes achosion o wahaniaethau yn erbyn pobl wrth ymgeisio am swyddi yn ein hysgol.

- Cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn rhoi mynediad i bobl ag anableddau.
- Ymdrechu i gyfathrebu â rhieni, gwarcheidwaid a dysgwyr mewn ffordd mor gynhwysol â phosibl.
- Sicrhau na fydd unrhyw achos o wahaniaethu yn erbyn unrhyw unigolyn pan fydd ef/hi neu pan fyddan nhw yn ein hysgol.

Er mwyn cyflawni ei gyfrifoldeb o ran adrodd, bydd y corff llywodraethu yn adrodd ar gynnydd y Cynllun yn flynyddol, a hynny'n rhan o'i Adroddiad Blynyddol i Rieni/Gwarcheidwaid.

## UWCH GARFANNAU RHEOLI

Mae Uwch Garfan Reoli ein hysgol yn hybu cydraddoldeb ac yn dileu achosion o wahaniaethu wrth:

- Gweithredu'r Cynllun yma yn yr ysgol, gyda chefnogaeth y corff llywodraethu i wneud hynny.
- Sicrhau bod yr holl staff yn gwbl effro i'w cyfrifoldebau o dan y Ddeddf, yn ogystal â'r Cynllun yma ac amcanion cydraddoldeb ein hysgol.
- Sicrhau bod pob panel penodi yn rhoi sylw dyledus i'r Cynllun, fel nad oes achosion o wahaniaethu yn erbyn unrhyw un o ran cyfleoedd cyflogaeth neu hyfforddiant.
- Hybu'r egwyddor o gyfle cyfartal wrth ddatblygu'r cwricwlwm, hybu dangos ac arfer parch at bobl eraill, a darparu cyfleoedd cyfartal mewn perthynas â chymryd rhan ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.



- Mynd i'r afael â phob achos o driniaeth annheg ac unrhyw achosion o fwlio neu wahaniaethu, gan gynnwys digwyddiadau hiliol, yn unol â pholisïau'r awdurdod lleol a'r ysgol.
- Sicrhau bod yr holl staff yn effro i'r Cynllun.

## STAFF ADDYSGU A STAFF SYDD DDIM YN ADDYSGU

Mae'r ysgol yn ystyried cydraddoldeb yn gyfrifoldeb ar bawb.

Mae pob aelod o staff yn cyfrannu at sicrhau bod ein hysgol yn gymuned deg a chyfiawn sy'n gweithredu'n un, a hynny wrth:

- Sicrhau bod pob dysgwr yn cael ei drin/ei thrin yn deg, yn gyfartal a chyda pharch, gan fod yn effro i'r Cynllun yma yn yr ysgol bob amser.
- Ymdrechu i ddarparu deunydd sy'n rhoi delweddau cadarnhaol yn seiliedig ar y nodweddion gwarchodedig ac sy'n herio delweddau ystrydebol.
- Herio unrhyw achosion o ragfarn, hiliaeth neu homoffobia, a chofnodi unrhyw ddigwyddiadau difrifol fel sydd wedi'u nodi ym mholisïau'r awdurdod lleol a'r ysgol, e.e. adrodd ar ddigwyddiadau hiliol.
- Cefnogi gwaith staff cymorth a'u hannog i ymyrryd mewn ffordd gadarnhaol yn

erbyn unrhyw achosion o wahaniaethu.

## Adran 8: Ymgysylltu

Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi bod yn bwysig i sicrhau ein bod ni'n deall yn glir pa gamau gweithredu sy'n cael eu hystyried yn bwysig i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwahaniaethu yn ein hysgol. Mae ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd weithredol hefyd wedi bod yn fodd effeithiol o adolygu effaith y Cynllun cyfredol ac o nodi unrhyw feysydd pellach i'w gwella.

Mae ymgysylltu llwyddiannus yn gofyn am gasglu gwybodaeth ynghyd a rhyngweithio ag ystod o wahanol grwpiau, yn ogystal â pharhau i fod yn sensitif i anghenion unigolion â nodweddion gwarchodedig gwahanol. Mae sicrhau lleisiau dysgwyr, eu teuluoedd a'u gwarcheidwaid mewn ffordd ystyrlon yn hanfodol i ddeall anghenion ein dysgwyr a'n teuluoedd, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed.

Mae ystod eang o waith ymgysylltu gwahanol wedi'i gynnal er mwyn llywio cynlluniau strategol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dadansoddi ymatebion yr arolwg neu adborth gan grwpiau ffocws ar faterion cydraddoldeb gan ystod o randdeiliaid gan gynnwys dysgwyr, rhieni/gwarcheidwaid, staff, y corff llywodraethu a'r gymuned ehangach. Cafodd peth ystyriaeth ei rhoi i ddadansoddi gwybodaeth yn ôl nodweddion gwarchodedig er mwyn llywio cynllunio strategol.
- Gweithgareddau llais y dysgwr ac adborth gan gyngor yr ysgol.
- Dadansoddiad o gwynion am yr ysgol.



- Adborth yn sgil achlysuron a gweithdai ymgynghori â rhieni/gwarcheidwaid. ● Adborth o brosesau adolygu blynyddol.
- Deilliannau achlysuron a gweithgareddau sy'n dod â'r gymuned ynghyd.

Wrth ymgynghori, mae ystyriaeth bwysig wedi'i rhoi i'r dulliau mwyaf effeithiol a dibynadwy o gasglu gwybodaeth. Mae cyfleusterau dehongli ar gyfer y rheiny y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddyn nhw neu'r rheiny sydd newydd gyrraedd y wlad yma. Mae deunyddiau wedi'u haddasu hefyd wedi'u defnyddio i sicrhau hygyrchedd i'r rheiny ag anableddau neu ADY.

## Adran 9: Dadansoddi Data a'u Gwerthuso

Mae prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwella'r ysgol hefyd wedi llywio'r Cynllun yma. Rydyn ni hefyd wedi cymharu data'r ysgol â'r data lleol neu genedlaethol (lle mae ar gael), ac wedi cymryd hyn i ystyriaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- Data cyrhaeddiad a chynnydd dysgwyr yn ymwneud â gwahanol grwpiau agored i niwed a nodweddion gwarchodedig.

- Dadansoddi mynediad at y cwricwlwm a dewisiadau perthnasol yn ôl grwpiau agored i niwed a nodweddion gwarchodedig.
- Dadansoddi data presenoldeb, gwaharddiadau a bwlio/aflonyddu yn ôl grwpiau agored i niwed a nodweddion gwarchodedig lle bo'n briodol. ● Niferoedd ymgysylltu â gweithgareddau cyfoethogi yn ôl grwpiau agored i niwed neu nodweddion gwarchodedig.
- Data recriwtio, datblygu a chadw gweithwyr.
- Gwerthuso camau gweithredu a deilliannau hanesyddol mewn perthynas â chydraddoldeb.

## Adran 10: Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae gyda'r ysgol brosesau asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb wedi'u hen sefydlu ar waith.

Mae asesiadau effaith wedi cynnwys adolygiad o'r holl gynlluniau a pholisïau cyfredol ac arfaethedig er mwyn ein helpu i hybu cydraddoldeb a sicrhau nad oes unrhyw berson dan anfantais mewn perthynas â gweithgareddau ysgol oherwydd gwahaniaethu. Mae asesiadau effaith yn broses barhaus i sicrhau bod cynlluniau a pholisïau'r ysgol yn cael eu datblygu mewn modd cynyddol gynhwysol a theg.

Yn rhan o gydymffurfiaeth yr ysgol â dyletswyddau penodol y Ddeddf, byddwn ni'n parhau i gynnal asesiad effaith o bob polisi a chynllun newydd cyn eu gweithredu. Yn yr un modd, byddwn ni'n asesu effaith ein polisïau a'n cynlluniau cyfredol pryd bynnag y maen nhw'n cael eu hadolygu. O'r herwydd, mae asesiadau effaith yn cael eu hymgorffori



yn rhan o amserlen yr ysgol wrth adolygu pob polisi. Os bydd asesiadau effaith wedi'u cynnal, byddan nhw'n dylanwadu ar newidiadau i bolisi ac adolygiad y Cynllun ei hun.

## Adran 11: Dysgu Proffesiynol i Staff

Mae'n ofyniad statudol i hybu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddyletswydd gyffredinol ymhlith staff ac i nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi yn y maes yma yn ystod y broses rheoli cyflawniad. Caiff hyn ei wneud yn flynyddol ac mae'r deilliannau'n cyfrannu at ein cynlluniau dysgu proffesiynol yn yr ysgol.

## Adran 12: Amcanion Cydraddoldeb

Mae ein Cynllun a'n hamcanion cydraddoldeb wedi'u pennu ar ôl cynnal gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, dadansoddi data a hunanarfanu (e.e. materion sy'n codi o ganlyniad i'n dadansoddiad o'n data cyrhaeddiad sy'n cymharu bechgyn a merched, y rheiny sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim o'u cymharu â'r rheiny sydd ddim yn

gymwys, ac ati).

Gweler Atodiad 1 am fanylion y Cynllun ar gyfer rhwng 2022 a 2026 ac amcanion cydraddoldeb ein hysgol, sydd wedi'u llywio gan waith ymgysylltu, hunanarfarnu a blaenoriaethau lleol/cenedlaethol. Mae'r Cynllun Addysg Strategol yn cwmpasu'r holl nodweddion gwarchodedig perthnasol yn ôl diffiniad y Ddeddf.

Mae'r camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y Cynllun yn cyd-fynd â'n Cynllun Gwella'r Ysgol/neu Gynllun Datblygu'r Ysgol a chaiff y ddau gynllun eu croesgyfeirio fel eu bod nhw wedi'u cysylltu'n annatod.

Mae'r Cynllun yma dan sylw wedi nodi'n glir:

● Amcanion cydraddoldeb a chamau gweithredu penodol.
● Effaith ddisgwyliedig a dangosyddion cyflawniad (meini prawf llwyddiant) ● amserlenni clir.
● Cyfrifoldebau staff arweiniol ar gyfer camau gweithredu sydd wedi'u nodi. ● Goblygiadau o ran adnoddau.
● Dyddiadau penodol ar gyfer asesu ac adolygu effaith.

Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd a bydd adroddiadau blynyddol yn cael eu darparu i'r corff llywodraethu ar gyfer rhieni/gwarcheidwaid.



## Adran 13: Amcan Cyflog Rhwng y Rhywiau

Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i amcan cyflog y rhywiau gael ei ddatblygu lle caiff gwahaniaeth cyflog rhwng y rhywiau ei nodi. Bydd hyn yn gofyn am ddadansoddiad ystadegol o ddata cyflogau a chymariaethau rhwng staff gwrywaidd a benywaidd.

Yn ein hysgol ni, dydyn ni ddim wedi gallu nodi gwahaniaeth cyflog gan fod y grŵp staff yn rhy fach i wneud dadansoddiad ystadegol priodol.

## Adran 14: Cyhoeddi Canlyniadau a'u Monitro

Bob blwyddyn, mae'r ysgol yn darparu adroddiad i'r corff llywodraethu sy'n manylu ar y Cynllun yma ac yn ei werthuso. Ceir gwybodaeth hefyd yn adroddiad blynyddol y corff llywodraethu i rieni/gwarcheidwaid. Bydd y Cynllun a'r gwerthusiad ohono'n cael ei rannu gyda rhieni/gwarcheidwaid.

Mae'r holl ddata sydd wedi'u casglu ynghyd wedi'u defnyddio at ddiben dadansoddi tueddiadau yn ôl nodwedd warchodedig ym meysydd cyflawniad, ymgysylltiad a boddhad â'r cymorth a'r ddarpariaeth y mae'r ysgol yn eu cynnig, yn unol â gofynion a deddfwriaeth diogelu data.

Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth am ein Cynllun Addysg Strategol. Bydd y Cynllun yma'n cael ei fonitro gan y corff llywodraethu a bydd pob cynllun newydd yn cael ei gyflwyno i'r awdurdod lleol.

## Adran 15: Arweinyddiaeth Strategol

Yr aelod o staff arweiniol ar gyfer y Cynllun yma yn Ysgol Abercynon yw Mr David Davies. Gall y pennaeth hefyd ddarparu gwybodaeth bellach os oes angen.



**Atodiad 1**

## Ysgol Gynradd Gymraeg Abercynon
## CYNLLUN CYDRADDOLDEB STRATEGOL AR GYFER 2022 HYD AT 2025

**Dyddiad Cyhoeddi: Hydref** 2022
**Adolygiad cyntaf o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol**: Hydref 2023
**Adolygiad ffurfiol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol**: Haf 2025

# Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb 2022/2025
## Targedau

● Dileu achosion o wahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n cael ei wahardd o dan y Ddeddf.
● Hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig penodol a phobl sydd ddim yn eu rhannu. ● Hybu perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodweddion gwarchodedig perthnasol a phobl sydd ddim yn eu rhannu.

| ***Tasgau*** | ***Staff Cyfrifol*** | ***Amserlen*** |
|---|---|---|
| ***<u>Oedran</u>***<br>Hyrwyddo perthynas dda ar draws pobl y gymuned : Cyngherddau amrywiol yn y gymuned / cyngherddau cartrefi gofal | *Pennaeth MDILl* | ***Cyfredol*** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| ***Anabledd***<br>Adolygu strategaeth mynediad o safbwynt amgylchedd corfforol , cwricwlwm a gwybodaeth yr Ysgol | *Pwyllgor I&D/C&S* | ***Cyfredol*** | Cynllun hy<br>ei le.<br>Pob disgy<br>mynediad<br>Cwricwlw<br>Cynlluniau<br>pwrpasol<br>gwahaniad<br>Gwefan g |
| ***Cenedl***<br>Adroddiad blynyddol i Lywodraethwyr i gynnwys adroddiad ar ddata ; presenoldeb, cyrhaeddiad, bwlio cyn cynnig targedau<br><br>**Hil/Ethnig**<br>Defnyddio'r Cynllun [“Show Racisim the Red Card “]<br>[http://www.srtrc.org/educational/competitions/ wales]<br>Datblygu cynlluniau Cwricwlwm i Gymru i gynnwys amrywiaeth<br>Adnoddau aml ddiwylliannol ar gael drwy'r ysgol (doliau /gwisgoedd ac arteffactau diwylliant gwahanol | *UDA*<br><br>Arweinydd Dyniaethau | ***Cyfredol***<br><br>***Cyfredol*** | Dadansod<br>ei le<br>Adroddia<br>ALl yn dy<br>Cyfarfdy<br>tymhorol<br><br>Pob plent<br>rhan o gy<br>ysgol Cyn<br>cynnwys g<br>amrywiae<br>digwyddia<br>hanes pob |

3

| | | | |
|---|---|---|---|
| ***Crefydd***<br><br>*Cyfleoedd cyson i ymweld â mannau addoli lleol*<br><br>Dilyn Polisi Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg a'r Cwricwlwm | Arweinydd Dyniaethau | ***Cyfredol*** | Cynlluniau<br>dangos ei<br>dilyn y po |

***Rhywioldeb***
Gweithredu'r cynllun Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb i hyrwyddo agwedd bositif rhwng partneriaid ac amrywiaeth strwythur teuluol

Tim Lles Cyfredol Cynllun ar waith Cyflwynwyd y polisi i'r llywodraethwyr
a'r rhieni mewn
diwrnod agored lles
Gwersi ACRh yn
digwydd yn gyson
Cynhaliwyd
Pythefnos
Perthnasoedd a
Chamdrin
Sylweddau

4

**Cyffredinol**

Llawlyfr staff ac athrawon ar gael

**Elusen**

Codi arian i achosion a ddewiswyd gan y disgyblion

**Gwrth-fwlio**

Cynlluniau gwrth fwlio ar waith/ Polisïau gwrthfwlio clir ar ein gwefan gyda chyngor i rieni a disgyblio
"Sut ydw i'n teimlo " yn bwydo mewn i amser cylch

Cymorth ELSA

Athrawon yn trafod ein gwerthoedd yn gyson – cydweithio, caredigrwydd, cyfrifoldeb, ceisio'n gorau

cwrteisi Y Cyngor Iechyd a Lles yn hyrwyddo lless meddyliol ac emosiynol trwy gynllunio gwaith trwy

Cwtsh Cynon ar gael i bob disgybl - amser cinio/sudd a sgwrs

Y Llysgenhadon Gwych yn aelodau o brosiect Comisiynydd Plant Cymru Hawliau Plant.

Llais y disgybl yn dechrau datblygu yn yr ysgol (gweler adroddiadau'r cynghorau)

5

Llofnod/Signed M Barry Dyddiad:16.10..2024

Michelle Barry ( Pennaeth/Headteacher)

Llofnod/Signed L Young Dyddiad:16.11.2023

Lisa Young (Cadeirydd y
Llywodraethwyr)
2
3